

Necrosis Croenol Briwiol

A heintiau croen eraill sy'n effeithio ar eogiaid gwyllt a sewin

Beth yw necrosis croenol briwiol?

Mae necrosis croenol briwiol yn gyflwr croen sy'n effeithio ar eogiaid gwyllt yr Iwerydd a sewin. Mae'n gyflwr naturiol sydd fel arfer yn effeithio ar niferoedd isel o bysgod wrth iddynt ddychwelyd i ddŵr croyw. Mae achosion o necrosis croenol briwiol wedi cael eu cofnodi ledled Ynysoedd Prydain a gogledd Ewrop. Mae'n gyflwr cymhleth ac mae dealltwriaeth ohono'n parhau i fod yn wael.

Beth yw prif symptomau necrosis croenol briwiol?

Mae gan bysgod sydd â necrosis croenol briwiol friwiau i'r croen sydd fel arfer yn dechrau fel doluriau crwn ar y pen. Gall y briwiau hyn ddiwydd ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, a gallant wella heb unrhyw gymhlethdod pellach. Fodd bynnag, gall clwyfau agored ddatblygu heintiau bacteriol a ffwngau eilaidd yn gyflym, gan dyfu o ran maint a difrifoldeb. Mae'r organeddau hyn yn bresennol ym mhob corff dŵr, a gallant amlhau ar ddarnau o ddifrod croen, neu pan fydd pysgod eisoes o dan straen neu wedi eu gwanychu. Mae necrosis croenol briwiol yn aml yn cael ei ddrysu neu ei guddio gan yr heintiau hyn, gan wneud diagnosis cywir yn anodd ei wneud. Mae'n bosibl y bydd pysgod sydd wedi cael eu heffeithio yn ddifrifol yn marw o ganlyniad i friwiau, haint ffwngau, a cholli osmoreolaeth arferol.



Briwiau croen a haint ffwngau eilaidd ar ben eogiaid gwyllt ac o'i gwmpas.

Beth sy'n achosi necrosis croenol briwiol?

Er gwaethaf ymdrechion sylweddol, nid yw'n eglur yn union beth sy'n achosi necrosis croenol briwiol. Nododd astudiaethau a gynhaliwyd yn y 1970au ei bod yn bosibl bod asiant heintus megis firws yn achosi necrosis croenol briwiol. Mae hyn wedi cael ei gwestiynu ers hynny, gan nad oes unrhyw bathogen sengl wedi cael ei nodi.

Mae necrosis croenol briwiol yn glefyd cymhleth, ac mae'n bosibl bod nifer o resymau drosto ef. Gwyddys bod amgylchiadau amgylcheddol yn ddylanwad pwysig ar weithgarwch bacteria a ffwng – ac o ganlyniad ar ddatblygiad briwiau. Yn ddiweddar, mae briwiau tebyg i friwiau necrosis croenol briwiol wedi cael eu cysylltu â lefelau uchel o olau uwchfioled a dyfnder dŵr isel – er bod angen cadarnhau'r cysylltiadau hyn.

Sut y gwneir diagnosis o necrosis croenol briwiol o gymharu â chyflyrau croen eraill?

Gall golwg briwiau sy'n debyg i friwiau necrosis croenol briwiol amrywio'n llawer, ac mae'n gallu bod yn anodd gwahaniaethu rhyngddo a chyflyrau croen eraill. Mae heintiau bacteriol a ffwngau yn aml yn cael eu hadrodd mewn eogiaid gwyllt a sewin yn ystod cyfnodau o straen (megis ymfudo a silio), neu pan fydd amgylchiadau andwyol. Er enghraifft, mae heintiau ffwngau yn fwy tebygol o ddatblygu yn ystod cyfnodau estynedig o lifoedd isel. Mae'r heintiau eilaidd hyn yn gwneud y gwaith o wneud diagnosis cywir yn llai tebygol.

Ni ellir cadarnhau necrosis croenol briwiol ond trwy archwiliad o bysgod byw sy'n mynd trwy gamau cynnar y clefyd. Mae cadarnhau necrosis croenol briwiol yn dibynnu ar gymryd samplau croen ar gyfer histopatholeg – proses lle mae darnau tenau o feinwe yn cael eu gosod, eu staenio a'u harchwilio ar gyfer newidiadau microsgopig. Dim ond wedyn y gellir cadarnhau newidiadau nodweddiadol i'r haenau croen. Nid yw aberthu pysgod byw yn ymarferol, ac mae'n bosibl na fydd yn angenrheidiol oni bai bod problemau difrifol ynglŷn â chlefyd yn cael eu nodi.



Gan amlaf, mae heintiau ffwngaid ar ben neu gorff eogiaid yn cael eu hachosi gan heintiau *Saprolegnia* cyffredin, nid necrosis croenol briwiol.



Gall marwolaeth eogiaid gwyllt gael eu hachosi gan nifer o glefydau gwahanol, a bydd unrhyw broblemau difrifol yn cael eu harchwilio ar unwaith.

Beth yw effaith necrosis croenol briwiol ar ein stociau eogiaid?

Adroddwyd colledion mawr yn y stociau eogiaid ym Mhrydain tua diwedd y 19eg ganrif. Cafodd y rhain eu priodoli i 'glefyd eogiaid', cyflwr tebyg i'r hyn a adwaenir bellach fel necrosis croenol briwiol. Cafodd marwolaethau eogiaid a chanddynt friwiau tebyg i friwiau necrosis croenol briwiol eu hadrodd yn fwy eang yn y DU yn y 1960au a'r 1970au, gydag achosion yn cael eu cadarnhau yn Iwerddon a Sweden. Ers hynny, mae achosion o necrosis croenol briwiol ym Mhrydain wedi parhau i fod yn isel, gyda cholledion achlysurol, unigol yn unig. Yn ôl pob golwg, gall achosion o necrosis croenol briwiol barhau mewn afonydd am nifer o flynyddoedd ond wedyn diflannu. Yn ddiweddar, mae sylw'r cyfryngau wedi cael ei dynnu at achos o necrosis croenol briwiol yn Afon Spey yn yr Alban, yng ngwanwyn 2012, er i'r clefyd gael ei gadarnhau mewn un pysgodyn yn unig, ac ystyriwyd hyn yn achos naturiol. Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd sy'n awgrymu bod necrosis croenol briwiol yn achosi problemau difrifol i boblogaethau eogiaid gwyllt.

Arfer da ar gyfer pysgotwyr

Er nad yw necrosis croenol briwiol wedi cael ei gysylltu â chlefyd heintus, rydym bob amser yn argymhell bod pysgotwyr ar eu gwylidwriaeth ac yn ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Dylech ddiheintio eich esgidiau pysgota, eich rhwydau a'ch offer pysgota gwlyb bob amser cyn symud i gorff dŵr gwahanol. Gellir gwneud hyn naill ai trwy sychu popeth yng ngolau'r haul, neu drwy ddefnyddio diheintyddion penodol.

Beth dylwn ei wneud os ydw i'n amau clefyd pysgod?

Os ydych yn amau neu'n gweld problemau yn ymwneud â chlefyd mewn pysgod gwyllt, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru ar unwaith. Gall tynnu ffotograffau o ansawdd uchel o unrhyw friwiau cyn dychwelyd eogiaid i'r afon roi cofnod defnyddiol o unrhyw abnormaleddau. Os oes nifer fawr o bysgod yn cael eu heffeithio, bydd y rhain yn cael eu harchwilio cyn gynted ag y bo modd gan staff lleol – wedi eu cefnogi gan Labordy Iechyd Pysgod Asiantaeth yr Amgylchedd a labordai CEFAS.

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â necrosis croenol briwiol, gweithdrefnau diheintio neu unrhyw fater yn ymwneud ag iechyd pysgod, cysylltwch â: **Cyfoeth Naturiol Cymru**

E-bost – fisheries.wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Canolfan Gofal Cwsmeriaid, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Ffôn – 03000 65 3000 (24 awr y dydd)